# LISVANE & LLANISHEN RESERVOIRS

## Update Newsletter — September 2021

This is not a circular
Owner/Occupier

## Hello!

Welcome to the Lisvane & Llanishen Reservoirs Summer Newsletter. In this newsletter we are updating on what has been happening over the summer and how we are moving closer to our vision of creating a hub for recreation, health and wellbeing at the reservoirs.

## Green light given for Visitor Hub

We were delighted that our plans to create a visitor hub on the site have received approval by Cardiff Council. The visitor hub will provide spectacular views across both reservoirs as well as enabling us to bring back sailing to the reservoir, along with an array of watersports including stand-up paddle boarding, canoeing, kayaking, and electric picnic boats.

As part of the company's ambitious environmental plans, the design of the visitor centre incorporates features to improve its green credentials and reduce its carbon footprint – including the installation of solar panels, the use of 'green gas' and provision for electric car charging points. We are continuing to work closely with Cardiff Council as we work through the pre-commencement planning conditions before construction starts late 2021.



## Unauthorised Access to Reservoirs

Sadly, as the weather warmed up, we saw an increase in the number of people trespassing on the site, undertaking acts of vandalism and as well as entering the water. From the surface reservoirs look beautiful but can be deadly. Unauthorised swimming at any of our reservoirs is prohibited and extremely dangerous as very cold, deep water can cause even strong swimmers to find themselves in difficulty.

We would like to ask parents and guardians to speak to their children about the dangers of unauthorised swimming. To find out more visit **https://corporate.dwrcymru.com/en/one-last-breath**

The damage being caused not only affects the operation of the reservoirs but also poses a risk to the ecology and wildlife. The site does remain closed to the public, we have security present and we would like to thank South Wales Police for their support.

## Protecting the Site's Ecology


As a company committed to conservation and biodiversity, we have been working closely with Natural Resources Wales (NRW) and our ecologists to ensure that our future plans for the site protect and enhance the site's unique ecology. The site has two designated Sites of Special Scientific Interest (SSSI) for waxcap fungi and overwintering birds. Much of the reservoir grassland and scrub woodland outside the SSSI is designated as a Site of Importance for Nature Conservation (SINC).

Included in our plans are a number of ecological proposals such as creating a Winter Conservation Zone with floating islands on Lisvane reservoir to protect birds, bird hides on the embankment, and a Conservation Zone in Gwern-y-Bendy Woods.

Thanks to the Welsh Government ENRaW funding, over 4km of new footpaths will be installed. Once open to the public the paths will allow visitors to enjoy walks around the reservoirs whilst protecting the iconic wildlife.

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru
Working in partnership with Welsh Government

Protecting ecology is a long-term responsibility. The habitat surveys we are currently conducting will help us learn more about the area, informing how we sustainably manage the site in the future.



Dŵr Cymru Welsh Water

lisvaneandllanishen@dwrcymru.com
0800 052 0130 | dwrcymru.com

# LISVANE & LLANISHEN RESERVOIRS

## Reconnecting Reservoir Action Group

In May we welcomed RAG Committee Members and Julie Morgan MS to attend an evening walk around the reservoirs, re-connecting the local community with the site they saved. Accompanying them on the walk was Diana and John Pierce, daughter and son-in-law of the late Ted Thurgood who set up RAG in 2001.



This was the first community event we held on site since lockdown restrictions were eased. ENRaW Partnership Manager, Annie Smith, said "It was a pleasure to be able to host the evening. It was important to Welsh Water that the first community event on site acknowledged those that worked so hard to save the reservoirs."

Many thanks to volunteers from Cardiff Camera Club who attended to capture images of the event.

## School Pupils meet Minister for Climate Change

Newly appointed Minister for Climate Change, Julie James, enjoyed a tour of site and chatted to pupils from Rhydypenau Primary and Christ the King Catholic Primary schools.

Pupils were able to talk to the new Minster about what they have been learning, ask questions about her role, as well as let the Minister know what is important to them to make Wales and the world a better place.



## Outdoor Learning in Cardiff's Ancient Woodlands

Thanks to the Welsh Government Community Woodlands initiative – part of the Welsh Government's National Forest programme – and The National Lottery Heritage Fund, we have been able to welcome back primary school pupils from Thornhill Primary and Christ the King Catholic Primary to the reservoir.

Part of the programme is engaging with the local community through educational activities helping to raise the awareness of local wildlife on our doorstep. Whilst on site pupils learnt about some of the species that are reliant on woodlands and wildlife corridors and also enjoyed a mindfulness and wellbeing workshop led by Cardiff Metropolitan University's Dr Dylan Adams, Senior Lecturer in Education.



Llywodraeth Cymru Welsh Government

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

## Friends of Cardiff Reservoirs

Following an outdoor meeting on site in July, we are pleased to announce that Welsh Water's first Friends of Group has been officially constituted.

We look forward to working in partnership with Friends of Cardiff Reservoirs to develop volunteering programmes that increase awareness and involvement in caring for the environment and the local community. If you wish to find out further information on becoming a member of Friends of Cardiff Reservoirs, please visit their website: **www.friendsofcardiffreservoirs.org**

## Community Engagement

Any organisations, community groups or charities which would be interested in finding out more about the partnership opportunities which could be available at the site can email us at **lisvaneandllanishen@dwrcymru.com**

# CRONFEYDD DŴR LLYS-FAEN A LLANISIEN

## Newyddlen Wybodaeth — Medi 2021

Nid cylchlythyr yw hwn
Y Perchennog/Deiliad

## Helo 'na

Croeso i Newyddlen Haf Cronfeydd Dŵr Llysfaen a Llanisien. Yn y newyddlen hon, cewch glywed sut mae pethau wedi bod yn mynd dros yr haf a sut rydyn ni'n symud yn agosach at ein gweledigaeth o greu hyb ar gyfer hamdden, iechyd a llesiant yn y cronfeydd.

## Golau Gwyrdd i'r Hyb Ymwelwyr

Rydyn ni wrth ein boddau bod Cyngor Caerdydd wedi rhoi sêl eu bendith i'n cynlluniau i greu hyb i ymwelwyr ar y safle. Bydd yr hyb ymwelwyr yn cynnig golygfeydd godidog dros y ddwy gronfa ac yn ein galluogi ni i ddod â hwylio nôl i'r gronfa ddŵr, ynghyd â sawl math arall o chwaraeon dŵr fel rhwyf-fyrddio, canŵio, caiacio a chychod picnic trydan.

Yn rhan o gynlluniau amgylcheddol uchelgeisiol y cwmni, mae dyluniad y ganolfan ymwelwyr yn cynnwys ymdrechion i wella ei nodweddion gwyrdd a lleihau ei ôl troed carbon – gan gynnwys paneli solar, defnyddio 'nwy gwyrdd', a darpariaeth ar gyfer mwy o bwyntiau gwefru ceir trydan. Rydyn ni'n parhau i gydweithio'n agos â Chyngor Caerdydd er mwyn gweithio trwy'r amodau cynllunio cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau tua diwedd 2021.



## Mynediad Diawdurdod i'r Cronfeydd

Yn anffodus, yn ystod y tywydd poeth, gwelsom gynnydd yn y nifer o bobl oedd yn tresmasu ar y safle gan gyflawni gweithredoedd o fandaliaeth a mynd i'r dŵr. Ar yr wyneb, mae cronfeydd dŵr yn brydferth, ond maen nhw'n beryglus dros ben. Ni chaniateir nofio heb awdurdod yn unrhyw un o'n cronfeydd ac mae'n eithriadol o beryglus am y gall dŵr dwfn ac oer iawn beri i'r nofwyr cryfaf hyd yn oed eu ffeindio'u hunain mewn trafferthion.

Gofynnwn i rieni a gwarcheidwaid siarad â'u plant am beryglon nofio heb awdurdod. I gael rhagor o fanylion ewch i **https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/one-last-breath**

Yn ogystal ag effeithio ar weithrediad y cronfeydd, mae'r difrod a achosir yn peri risg i'r ecoleg a'r bywyd gwyllt. Mae'r safle'n dal i fod ar gau i'r cyhoedd, mae swyddogion diogelwch yn bresennol a hoffem ddiolch i Heddlu De Cymru am eu cefnogaeth.


## Amddiffyn Ecoleg y Safle

Fel cwmni sydd wedi ymrwymo i gadwraeth a bioamrywiaeth, rydyn ni wedi bod yn cydweithio'n agos â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a'n hecolegwyr er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau ar gyfer dyfodol y safle'n amddiffyn ac yn cyfoethogi ecoleg unigryw'r safle. Mae dau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yma, y naill am ffwng cap cwyr a'r llall am yr adar sy'n treulio'r gaeaf yma. Mae llawer o'r glaswelltir a'r coetir prysg y tu allan i'r SoDdGA wedi eu dynodi'n Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SoBCN).

Mae ein cynlluniau'n cynnwys nifer o gynigion ecolegol fel creu Parth Cadwraeth dros y Gaeaf gydag ynysoedd arnofiol i amddiffyn yr adar ar gronfa ddŵr Llys-faen, cuddfannau gwylio adar ar yr arglawdd, a Pharth Cadwraeth yng Nghoedwig Gwern-y-Bendy.

Diolch i gyllid ENRaW Llywodraeth Cymru, caiff dros 4km o lwybrau cerdded newydd eu creu. Pan fydd y safle'n agor i'r cyhoedd, bydd y llwybrau'n caniatáu i ymwelwyr fwynhau mynd am dro o amgylch y cronfeydd wrth amddiffyn y bywyd gwyllt eiconaidd.

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru
Working in partnership with Welsh Government



## Grŵp Gweithredu'r Gronfa'n Ailymgynnull

Ym mis Mai fe groesawon ni Aelodau o Bwyllgor RAG a Julie Morgan AC i fynd am dro o amgylch y cronfeydd gyda'r nos, gan ailgysylltu'r gymuned leol â'r safle y buont yn allweddol wrth ei achub. Yn gwmni iddynt ar y daith roedd Diana a John, merch a mab yng nghyfraith y diweddar Ted Thurgood a sefydlodd RAG yn 2001.



Hwn oedd yr achlysur cymunedol cyntaf i gael ei gynnal ar y safle ers llacio'r cyfyngiadau clo. Dywedodd Rheolwr Partneriaeth ENRaW, Annie Smith, "Roedd hi'n bleser gallu cynnal y noson. Roedd hi'n bwysig i Ddŵr Cymru bod yr achlysur cymunedol cyntaf ar y safle'n cydnabod y bobl hynny oedd wedi gweithio mor galed i achub y cronfeydd dŵr."

Diolch o galon i'r gwirfoddolwyr o Glwb Camera Caerdydd a ddaeth i dynnu lluniau o'r achlysur.

## Disgyblion Ysgol yn cwrdd â'r Gweinidog Newid Hinsawdd

Cafodd y Gweinidog Newid Hinsawdd newydd, Julie James, gyfle i ymweld â'r safle a sgwrsio â disgyblion Ysgolion Cynradd Rhydypennau a Christ y Brenin.

Bu'r disgyblion yn siarad â'r Gweinidog newydd am y pethau maen nhw wedi bod yn eu dysgu, yn ei holi am ei rôl ac yn rhoi gwybod i'r Gweinidog pa mor bwysig yw gwneud Cymru a'r byd yn lle gwell iddyn nhw.



## Dysgu yn yr Awyr Agored mewn Coetir Hynafol

Diolch i fenter Coetiroedd Cymunedol Llywodraeth Cymru – sy'n rhan o raglen Fforestydd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru – a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, bu modd i ni groesawu disgyblion oed cynradd o Ysgol Gynradd y Ddraenen ac Ysgol Gatholig Crist y Brenin nôl i'r gronfa.

Un rhan o'r rhaglen yw cysylltu'r gymuned leol trwy weithgareddau addysgol, gan helpu i godi ymwybyddiaeth am y bywyd gwyllt sydd ar stepen eu drws. Ar y safle, dysgodd y disgyblion am rai o'r rhywogaethau sy'n dibynnu ar goetiroedd a choridorau bywyd gwyllt, a chawsant weithdy ymwybyddiaeth ofalgar a llesiant yng ngofal Dr Dylan Adams, sy'n Uwch Ddarlithydd Addysg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.



Llywodraeth Cymru Welsh Government

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

## Cyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd

Yn dilyn cyfarfod awyr agored ar y safle ym mis Gorffennaf, rydyn ni'n falch o gyhoeddi bod Grŵp Cyfeillion cyntaf Dŵr Cymru wedi cael ei gyfansoddi'n swyddogol.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at gael gweithio mewn partneriaeth â Chyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd i ddatblygu rhaglen wirfoddoli sy'n codi ymwybyddiaeth am ofalu am yr amgylchedd a'r gymuned leol ac yn ei hyrwyddo.I gael rhagor o fanylion am ymaelodi â Chyfeillion Cronfeydd Dŵr Caerdydd, ewch i'w gwefan sef: **www.friendsofcardiffreservoirs.org**

## Cysylltiadau Cymunedol

Dylai unrhyw sefydliadau, grwpiau cymunedol neu elusennau sydd am gael rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd partneriaeth a allai godi ar y safle anfon neges e-bost atom yn **lisvaneandllanishen@dwrcymru.com**